TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Paratoi ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2




**Yn gryno**

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn ennill profiad galwedigaethol o'r gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai trwy gyflwyniadau, ymweliadau, gweithdai, mentoriaid a phrofiad gwaith.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych eisiau dilyn gyrfa yn y gwasanaethau mewn lifrai

... os ydych eisiau cyfuniad o ddysgu gweithredol, ymarferol a dysgu ar sail ddamcaniaethol

... os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus mewn swydd wirfoddol neu swydd gyda thâl

...os ydych chi'n breuddwydio am weithio yn y gwasanaeth tân, yr heddlu, y fyddin neu'r llynges.

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs yn cynnwys astudio sgiliau gwasanaeth cyhoeddus, cynllunio gyrfa a gwella iechyd a ffitrwydd ar gyfer mynediad i'r gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai. Byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel Gwobr Dug Caeredin, gweithgareddau awyr agored a gweithgareddau ar sail y Fyddin a'r Gwasanaeth Tân.

Nid oes arholiad ysgrifenedig terfynol gan y byddwch yn cyflawni eich cymhwyster trwy asesiad parhaus. Mae hyn yn cynnwys cyflawni aseiniadau, gwaith prosiect ac astudiaethau achos lle byddwch yn casglu tystiolaeth o'ch cymhwysedd. Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Tystysgrif BTEC Lefel 2 mewn Paratoi ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus
Tystysgrif Lefel 2 Ymddiriedolaeth y Tywysog mewn Datblygiad Personol a Sgiliau Cyflogadwyedd

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg (os nad oes gennych Radd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, byddwch angen o leiaf 4 TGAU, Gradd D neu uwch, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol sy'n cynnwys un ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc â'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 Gwasanaethau Cyhoeddus neu gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai neu'r diwydiant awyr agored.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Disgwylir i chi brynu cit awyr agored a chwaraeon hyd at werth £95, ynghyd â £40 ar gyfer Cofrestru ar gyfer Gwobr Dug Caeredin.